# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-23-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 4 Hydref 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewn De Cymru |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Sara Mansour | Dirprwy Clerc |

## Eitem 1: Ethol Cadeirydd Dros Dro

1.1 Dywedodd y Clerc wrth y Pwyllgor fod y Cadeirydd wedi ymddiheuro am iddo fethu dod i'r cyfarfod. Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau i ethol Cadeirydd Dros Dro. Enwebwyd ac etholwyd Dr Dai Lloyd i gadeirio'r cyfarfod.

## Eitem 2: Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Laura Jones, Glyn Davies

## Eitem 3: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-22-2005

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2005.

## Eitem 4: Adroddiad y Cadeirydd

4.1. Gan nad oedd unrhyw gamau heb eu cymryd ers y cyfarfod diwethaf, awgrymodd y Cadeirydd y dylid bwrw ymlaen ar unwaith i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 5: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

5.1 O ran yr Offerynnau Statudol a ganlyn, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu llunio ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1131 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2005 LC1132 - Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2005**

**LC1133 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005**

**LC1134 - Gorchymyn Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005**

## Camau i'w Cymryd

Nid oedd unrhyw gamau i'w cymryd.

## Eitem 6: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

6.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi trafod LC1129 - " Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005" yn y cyfarfod ar 27 Medi 2005 ac ni chafwyd hyd i unrhyw bwynt sy'n destun adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod rhagor o wybodaeth wedi dod i law ers hynny. Gofynnodd i'r Cynghorydd Cyfreithiol am ei sylwadau.

6.2 Eglurodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod "Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005" wedi'u hailgyflwyno i'r Pwyllgor gan fod diffiniad yn yr Offeryn Statudol hwn wedi newid, gan adlewyrchu'r ffaith fod yr Adran Drafnidiaeth wedi dirwyn Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd i ben. Gan nad oedd y newid i'r diffiniad yn codi pwynt sy'n destun adroddiad, cynigiodd fod adroddiad y Pwyllgor yn aros fel yr oedd gynt. Cytunodd yr Aelodau â'r cynnig.

6.3 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal 11 Hydref 2005.